# SCDSW6
## Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol

### Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau.  Mae gwaith amlddisgyblaethol effeithiol yn rhan hanfodol o waith cymdeithasol: rhaid rhannu'r wybodaeth sy'n hysbys i asiantaethau gwahanol er mwyn adnabod y rhai sydd mewn perygl, rhaid cydlynu sgiliau proffesiynau gwahanol i fod o fudd i'r rhai ag anghenion cymhleth, a rhaid cydgyfrannu adnoddau asiantaethau gwahanol i fwyhau canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.  Mae'r safon hon yn mynd i'r afael ag elfennau gwaith amlddisgyblaethol wrth gynnal rôl a chyfraniad nodedig y gweithiwr cymdeithasol.

# SCDSW6
Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol

## Meini prawf perfformiad

*Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:*

P1 datblygu perthnasoedd cydweithio â gweithwyr proffesiynol o ddisgyblaethau eraill

P2 cynnal rôl a swyddogaeth gwaith cymdeithasol wrth weithio mewn **cyd-destun amlddisgyblaethol**

P3 datblygu eich dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau pobl eraill sy'n cyfrannu at waith amlddisgyblaethol

P4 sicrhau bod egwyddorion, codau ymarfer a gwerthoedd gwaith cymdeithasol yn cael eu cymhwyso wrth weithio gyda phobl eraill

P5 cyfrannu at amlygu a chytuno ar nodau ac amcanion y gwaith amlddisgyblaethol

P6 trafod cyfrifoldebau sy'n parchu ffiniau cyfreithiol, moesegol, sefydliadol a phroffesiynol mewn cyd-destun amlddisgyblaethol

P7 trafod cytundebau ar systemau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth sy'n cyfrannu at ddiogelu unigolion a'r gymuned ehangach a'u lles

P8 cymhwyso gwybodaeth a sgiliau gwaith cymdeithasol i fynd i'r afael ag anghytundebau a gwrthdaro o fewn perthnasoedd amlddisgyblaethol mewn modd adeiladol

P9 cyfrannu at werthuso effeithiolrwydd y gwaith amlddisgyblaethol

**SCDSW6**

# Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K1 Deddfwriaeth genedlaethol, ei pherthynas â **pholisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol

K2 Codau, safonau, fframweithiau ac arweiniad statudol a phroffesiynol; eu perthynas â pholisi ac ymarfer gwaith cymdeithasol

K3 Nodweddion y wlad gartref, ei hiaith, diwylliant, daearyddiaeth ac arferion

K4 Damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o ddatblygiad dynol a'r ffactorau sy'n effeithio arno

K5 Damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o faterion cymdeithasol o safbwyntiau seicolegol, cymdeithasegol a throseddegol

K6 Damcaniaethau gwahaniaethu mewn cymdeithas gyfoes

K7 Gwaith cymdeithasol fel proffesiwn, gan gynnwys adroddiadau hanesyddol a materion cyfoes

K8 Natur, rôl a gorchymyn y berthynas gwaith cymdeithasol, gan gynnwys ffiniau proffesiynol a moesegol

K9 Egwyddorion, damcaniaethau, dulliau a modelau o ymyriad ac ymarfer gwaith cymdeithasol

K10 **Ffactorau** sy'n gyffredinol yn cael eu cysylltu ag ymglymiad gwaith cymdeithasol

K11 Egwyddorion asesu risg a rheoli risg

K12 Gweithio yn eich sefydliad: egwyddorion, gweithdrefnau ac ymarferion proffesiynol

K13 Offer a fframweithiau asesu a chynllunio

K14 Gofynion ffurfiol ar gyfer prosesau cyfreithiol a phrosesau allanol eraill

K15 Diben gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill

K16 Cylch gwaith, swyddogaethau, ethos a chyfrifoldebau disgyblaethau a sefydliadau sy'n ymglymedig â gwaith amlddisgyblaethol

K17 Egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, teuluoedd,

gofalwyr, grwpiau a chymunedau

| | |
|---|---|
| K18 | Systemau, prosesau a gweithdrefnau eich sefydliad eich hun a sefydliadau eraill, y gall unigolion, teuluoedd, grwpiau a chymunedau gymryd rhan ynddynt |
| K19 | Gweithdrefnau amlddisgyblaethol a sefydliadol lleol ar gyfer ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth |
| K20 | Dangosyddion gelyniaeth, gwrthwynebiad neu ddiffyg cydymffurfio cudd |
| K21 | Grym a chyfrifoldebau cyfreithiol a statudol y gellir eu defnyddio er mwyn diogelu unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau |
| K22 | Sut i fynegi gwybodaeth ysgrifenedig yn gywir, yn eglur, yn berthnasol ac â lefel briodol o fanylion |
| K23 | Gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cofnodi gwybodaeth a llunio adroddiadau |
| K24 | Gofynion cyfreithiol, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth |
| K25 | Egwyddorion ymarfer myfyriol, meddwl beirniadol a dysgu |
| K26 | Sut a phryd i fanteisio ar gymorth anffurfiol wrth ymarfer |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| | |
|---|---|
| **Cwmpas/ystod** | Ymarfer gwaith cymdeithasol gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau, mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol statudol ac anstatudol, datblygu cymunedol, cyfiawnder troseddol a lles addysgol |
| **Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â meini prawf perfformiad** | Gall y **cyd-destun amlddisgyblaethol** gynnwys unrhyw waith sy'n cynnwys disgyblaethau eraill, p'un a yw'n ffurfiol neu'n anffurfiol, yn dymor hir neu'n dymor byr, o fewn sefydliadau neu rhwng sefydliadau |
| **Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth** | Gall **polisïau** gynnwys rhai sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol, diogelu, ail-leoli/atgyfannu yn y gymuned, cyfiawnder troseddol, mudo a cheisio lloches, addysg, iechyd, tai, budd-daliadau lles, amrywiaeth, gwahaniaethu a hybu annibyniaeth ac ymreolaeth oedolion, plant, teuluoedd, grwpiau a chymunedau<br>Gall **ffactorau** gynnwys camddefnyddio sylweddau; iechyd meddwl; eiddilwch; salwch corfforol; anabledd corfforol; anabledd dysgu; anghenion synhwyraidd; mudo a cheisio lloches; tlodi; oedolion neu blant mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth; plant mewn angen; anawsterau sy'n ymwneud ag addysg; statws grŵp ethnig neu grŵp lleiafrifol arall; ymddygiad troseddol; diogelu'r cyhoedd |

## SCDSW6
Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol

| | |
|---|---|
| **Gwerthoedd** | Glynu wrth y codau ymarfer rheoleiddiol sy'n gymwys i weithwyr cymdeithasol, a'r gwerthoedd sydd wedi cael eu mewnosod ynddynt |
| **Sgiliau** | 1 Cynllunio camau gweithredu i gyflawni canlyniadau canfyddedig<br>2 Cyfathrebu mewn modd agored, cywir a dealladwy<br>3 Addasu cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd<br>4 Gweithio'n effeithiol gyda'r rheiny sydd â safbwyntiau neu werthoedd sy'n gwrthdaro â'ch rhai chi<br>5 Trafod gydag eraill i gyflawni cytundeb mewn sefyllfaoedd cymhleth<br>6 Herio eraill, lle bo angen, mewn ffyrdd sy'n debygol o gyflawni newid<br>7 Cymhwyso meddwl beirniadol i wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau<br>8 Dadansoddi a chyfosod gwybodaeth gymhleth<br>9 Cymhwyso meddwl creadigol i ddatrys problemau cymhleth<br>10 Llunio barn broffesiynol ynghylch sefyllfaoedd cymhleth<br>11 Defnyddio eich sgiliau rhyngbersonol a sgiliau a gwybodaeth arall fel adnodd<br>12 Cymhwyso ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn<br>13 Cydbwyso canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn â lles pobl eraill<br>14 Ymarfer pendantrwydd, grym ac awdurdod mewn ffyrdd sy'n gydnaws â gwerthoedd gwaith cymdeithasol<br>15 Llunio cofnodion ac adroddiadau sy'n bodloni safonau proffesiynol<br>16 Cael mynediad at systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'u defnyddio i gasglu, storio a lledaenu gwybodaeth<br>17 Cael mynediad at oruchwyliaeth a chymorth proffesiynol a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'ch gwybodaeth neu'ch profiad chi |
| **Cysylltiadau â SGC eraill** | Mae'r SGC hon yn cysylltu â phob SGC Gwaith Cymdeithasol arall. |
| **Cysylltiadau Allanol** | Mae'r SGC hon yn cysylltu â chodau ymarfer rheoleiddiol sy'n berthnasol i weithwyr cymdeithasol. |

**SCDSW6**

# Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| **Rhif y fersiwn** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | HYDREF 2011 |
| **Dyddiad adolygu mynegol** | EBRILL 2014 |
| **Dilysrwydd** | CYFREDOL |
| **Statws** | GWREIDDIOL |
| **Sefydliad gwreiddiol** | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| **URN gwreiddiol** | SW6 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Cymdeithasol |
| **Cyfres** | Gwaith Cymdeithasol |
| **Allweddeiriau** | amlddisgyblaethol; gwaith cymdeithasol |